# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2023—Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Blwyddyn archwilio: 2022–23

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 3969A2023

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 8

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 10

Atodiadau

Atodiad 1—adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 19

Atodiad 2—ffi archwilio 22

Atodiad 3—archwilio risgiau cyfrifon 23

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2023 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn ddarbodus, yn effeithlon, ac yn effeithiol wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Adroddaf ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau i sicrhau y defnyddir adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon, ac yn effeithiol

3 Cynhaliwyd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i etifeddiaeth pandemig COVID-19 wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol yn y system a oedd wedi cronni yn ystod y pandemig. Yn ogystal â hynny, roedd cyrff iechyd hefyd yn ymdrin â set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Felly, cynlluniwyd fy rhaglen waith i sicrhau pobl Cymru orau fod cyllid cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

4 Ceisiais sicrhau nad oedd fy ngwaith yn llesteirio cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i'r afael â'r heriau ar ôl y pandemig y maent yn eu hwynebu, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Parhawyd i weithio ac ymgysylltu o bell i raddau helaeth fel y bo modd gan ddefnyddio technoleg, ond ailddechreuwyd rhywfaint o waith archwilio ar y safle fel y bo'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar ein modd o gyflawni gwaith archwilio, ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Mae cyflawniad fy ngwaith archwilio cyfrifon wedi parhau o bell gan mwyaf. Diweddarwyd safonau archwilio ar gyfer archwiliadau 2022–23 a arweiniodd at rai newidiadau sylweddol yn ein dull gweithredu. Trafodwyd y newidiadau penodol yn fanwl yn fy Nghynllun Archwilio 2023. Estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cyfrifon archwiliedig i 31 Gorffennaf 2023. Ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 28 Gorffennaf 2023, sy'n golygu bod y dyddiad cau wedi ei fodloni. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Rwyf hefyd wedi addasu pwyslais a dull fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr heriau ôl-bandemig sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Rwyf wedi gwneud sylwadau am sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaethau orthopedig. Rwyf hefyd wedi cyhoeddi Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth o fetrigau a thueddiadau i helpu i ddarlunio'r heriau y mae angen eu goresgyn yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r gwaith briffio ar ddata yn ategu fy asesiadau o sut mae trefniadau cynllunio gweithlu cyrff GIG unigol yn eu helpu i fynd i'r afael yn effeithiol â heriau gweithlu y presennol a'r dyfodol. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi gwneud sylwadau ar drefniadau llywodraethu cyrff unigol, yn ogystal â sut maent yn ymateb i heriau a risgiau lleol penodol. Cynhelir fy ngwaith archwilio perfformiad yn unol â safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf[1].

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd mewn adroddiadau manylach eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy'n dal i fynd rhagddo, ond nid yw wedi ei gwblhau eto.

8 Cyflwyna **Atodiad 2** yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu am y costau o ymgymryd â'm gwaith, o'u cymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2023.

9 Noda **Atodiad 3** y risgiau archwilio cyfrifon a nodir yn fy Nghynllun Archwilio 2023 a sut yr aed i'r afael â nhw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Gwnaethom ei gyflwyno i'r Bwrdd ar 25 Ionawr 2024. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i wneud trefniadau i'w gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

12 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (fel y

[1] Sefydliad ambarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad anllywodraethol yw ef sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig.

bo’n berthnasol i’m harchwiliad), fodd bynnag, deuthum â rhai materion i sylw swyddogion a’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i’w gwella.

13 Fodd bynnag, amodais y farn ar reoleidd-dra. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, amodwyd y farn ar reoleidd-dra oherwydd na fodlonodd y Bwrdd Iechyd ei ddyraniad adnoddau refeniw yn ystod y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

14 Ochr yn ochr â’m barn archwilio, cyflwynais adroddiad sylweddol ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd er mwyn tynnu sylw at y materion rheoleidd-dra.

## Trefniadau i sicrhau y defnyddir adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus

15 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad yr Awdurdod wedi fy arwain i ddod i’r casgliadau canlynol:

- bod angen camau gweithredu taer a chynaliadwy i fynd i’r afael â’r amseroedd aros hir am wasanaethau orthopedig. Mae ymrwymiad clir i wella amseroedd aros, fodd bynnag, gallai gymryd tair blynedd neu fwy i ddychwelyd y rhestr aros orthopedig i’r lefelau a oedd yn bodoli cyn y pandemig.
- yn gyffredinol, fod trefniadau llywodraethu da ar lefel y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu gyda goruchwyliaeth ar lefel y Bwrdd. Fodd bynnag, mae angen gwella llifoedd gwybodaeth, ac mae angen rhagor o waith er mwyn cryfhau perthnasoedd a meithrin diwylliant dysgu mwy agored.
- er bod gweithlu y GIG yn cynyddu, fod swyddi gwag o hyd mewn meysydd allweddol, salwch a throsiant staff uchel sy’n arwain at orddibyniaeth ar staff asiantaeth. Yn fwy cadarnhaol, mae GIG Cymru yn dod yn gyflogwr mwy hyblyg a chyfartal.
- bod y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio’n glir ar ei ymdrechion ar ei heriau gweithlu sylweddol a’i fod yn cymryd camau pragmatig i helpu i leihau risgiau. Fodd bynnag, mae angen iddo ddatblygu cynllun gweithredu gweithlu clir a chyfunol ar frys a mesur yr effaith y mae’n ei chael i helpu i fynd i’r afael â’r heriau gweithlu sylweddol y mae’n eu hwynebu.
- bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau corfforaethol effeithiol yn gyffredinol, fodd bynnag, mae’n wynebu heriau perfformiad ac ariannol sylweddol.
- bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da wrth fynd i’r afael â’m hargymhellion blaenorol. Mae’n gwella rheolaeth gwasanaethau gofal sylfaenol, yn darparu capasiti ychwanegol, ac yn cryfhau’r broses o oruchwylio heriau gofal sylfaenol yn y Bwrdd. Fodd bynnag, mae’r capasiti yn parhau i fod dan bwysau mewn rhai meysydd, ac mae angen rhagor o waith i ddatblygu gwaelodlin ariannol. Mae angen gwella’r modd yr ystyrir

gofal sylfaenol, gan gynnwys goruchwylio perfformiad, ym musnes arferol y pwyllgor.

16 Rhoddir ystyriaeth bellach i'r canfyddiadau hyn yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

17 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion, a'i lifoedd arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

18 Roedd fy Nghynllun Archwilio 2023 yn nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwiliad cyfrifon 2022–23 a manylir ar hyn ynghyd â sut yr aed i'r afael â nhw yn **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3**.

19 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2022–23

20 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir, ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (fel y bo'n berthnasol i'm harchwiliad), fodd bynnag, deuthum â rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gwella.

21 Cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon, mae'n rhaid imi adrodd ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg) fel y gallant eu hystyried. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwiliad Ariannol y materion hyn ar 26 Gorffennaf 2023. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Gwnaed nifer o addasiadau i'r cyfrifon drafft, ond nid oedd yr un ohonynt yn effeithio ar y diffyg a adroddwyd. |

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Materion arwyddocaol eraill | Amodais fy marn ar reoleidd-dra a chyhoeddais adroddiad sylweddol oherwydd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i sicrhau balans ariannol am gyfnod tair blynedd 2020–23, ac nid oes gennyf gynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy ar waith ar gyfer cyfnod 2022–2025<br>Adroddais hefyd am welliannau y gellid eu gwneud yn y systemau i gyfrifo'r rhwymedigaethau Gofal Iechyd Parhaus a Gwyliau Blynyddol. |

22 Cynhaliais hefyd adolygiad o ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Penderfynais fod gwybodaeth gyfuno y gwrthbarti yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2023 a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

23 Mae fy archwiliad ar wahân o'r cyfrifon cronfeydd elusennol yn mynd rhagddo. Nid oes unrhyw faterion wedi codi hyd yn hyn, ac rwyf yn bwriadu rhoi fy marn archwilio ar 29 Ionawr 2024.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

24 Mae'n rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw. Mae'n rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i dderbyn incwm a gwario arian. Mae fy ngwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi er mwyn sicrhau nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i'w derbyn nac i'w hysgwyddo.

25 Pan nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni balans ariannol, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi gymhwyso fy marn reoleidd-dra.

26 Ar gyfer 2022–23, methodd y Bwrdd Iechyd â bodloni'r ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail ddyletswydd ariannol. Mae'r ddyletswydd ariannol gyntaf yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Fyrddau Iechyd trwy ganiatáu iddynt fantoli eu hincwm â'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd. Y cyfnod o dair blynedd a fesurir o dan y ddyletswydd hon eleni yw 2020–21 i 2022–23.

27 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, gan fynd £108.95 miliwn y tu hwnt i'w derfyn adnoddau refeniw cronnus o £3,199.59 miliwn, yr wyf o'r farn sydd tu hwnt i'w bwerau i wario, felly rwyf wedi cyhoeddi barn amodol ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2022–23 y Bwrdd Iechyd.

28 Mae'r ail ddyletswydd ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd baratoi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd dreigl sydd wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Mae'r ddyletswydd hon yn sylfaen hanfodol i ddarparu gwasanaethau iechyd cynaliadwy o ansawdd. Bernir bod Bwrdd Iechyd wedi

bodloni'r ddyletswydd hon ar gyfer 2022–23 os yw wedi cyflwyno cynllun 2022–23 i 2024–25 sydd wedi ei gymeradwyo gan ei Fwrdd i Weinidogion Cymru, yr oedd yn ofynnol iddynt adolygu ac ystyried cymeradwyo'r cynllun. Ni fodlonodd y Bwrdd Iechyd ei ail ddyletswydd ariannol i roi cynllun tymor canolig integredig tair blynedd cymeradwy ar waith ar gyfer cyfnod 2022–2025.

# Trefniadau i sicrhau y defnyddir adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus

29 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau y defnyddir adnoddau yn effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad y Bwrdd Iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- gwneud sylwadau am sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaethau orthopedig;
- adolygu'r trefniadau llywodraethu yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu;
- cyhoeddi Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth o fetrigau a thueddiadau i helpu i ddarlunio'r heriau y mae angen eu goresgyn yn lleol ac yn genedlaethol;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau cynllunio gweithlu y Bwrdd Iechyd;
- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus; ac
- asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu fy argymhellion 2018 ar ofal sylfaenol, yn ogystal â'r graddau y mae'r Bwrdd a/neu ei bwyllgorau yn ystyried materion sy'n ymwneud â gofal sylfaenol ac mae capasiti a gallu priodol i gyflawni blaenoriaethau.

30 Nodir isod fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn.

## Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru

31 Ym mis Mawrth 2023, gwneuthum sylwadau ar wasanaethau orthopedig ledled Cymru. Mae fy adroddiad cenedlaethol 'Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros' yn nodi graddfa yr arosiadau orthopedig, newidiadau yn y galw, agweddau ar gapasiti'r gwasanaeth a rhywfaint o'r gwaith a gydgysylltir yn genedlaethol i foderneiddio gwasanaethau. Mae fy adroddiad hefyd yn nodi camau allweddol y mae angen i GIG Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r heriau mewn gwasanaethau orthopedig.

32 Canfu fy ngwaith fod sicrhau triniaeth amserol i bobl sydd â phroblemau orthopedig wedi bod yn her i'r GIG yng Nghymru ers blynyddoedd lawer, a bod pandemig COVID-19 wedi gwneud hyn yn llawer gwaeth. Mae arian blaenorol y mae

Llywodraeth Cymru wedi ei ddyrannu wedi arwain at welliannau tymor byr ond nid yw wedi cyflawni'r newidiadau cynaliadwy i wasanaethau a oedd yn angenrheidiol, ac nid yw targedau rhestrau aros orthopedig wedi eu cyflawni ers iddynt gael eu pennu yn gyntaf yn 2009.

33 Ers i effaith y pandemig leihau, mae gwasanaethau orthopedig wedi bod yn araf yn ailddechrau, ac er y bydd angen i drefnau rheoli heintiau barhau i gael effaith ar drwygyrch, mae lle i'r capasiti presennol gael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon. Mae fy ngwaith modelu senario yn dangos y gallai gymryd rhwng tair a phum mlynedd i ddychwelyd arosiadau orthopedig i'r lefelau a oedd yn bodoli ledled Cymru cyn y pandemig. Mae hyn yn seiliedig ar ysgogiad sylweddol o ran atal yn y gymuned a chynnydd mewn capasiti a gweithgarwch. Heb hyn, mae'n bosibl na fydd gwasanaethau byth yn dychwelyd i'r lefelau a oedd yn bodoli cyn y pandemig.

34 Canfu fy ngwaith fod ymrwymiad clir i wella gwasanaethau orthopedig. Comisiynodd GIG Cymru adolygiadau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn genedlaethol ac yn lleol, sy'n nodi cyfres o argymhellion. Comisiynwyd strategaeth glinigol genedlaethol ar gyfer orthopedig hefyd sy'n nodi dewisiadau gwasanaeth a llais clinigol clir ar yr hyn y mae angen ei wneud. Fodd bynnag, mae angen gweithredu ar frys i sicrhau gwelliannau tymor byr mewn amseroedd aros i leihau pa mor hir y mae pobl yn aros mewn poen ac anghysur, yn ogystal â chreu gwelliannau mwy cynaliadwy yn yr hirdymor.

35 Yn ogystal â'm hadroddiad cenedlaethol, nododd fy nhîm sut mae gwasanaethau orthopedig y Bwrdd Iechyd yn cymharu â byrddau iechyd eraill ledled Cymru. Amlyga fy adroddiad cymharol fod gan y Bwrdd Iechyd:

- arosiadau ychydig yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, gyda llai o gleifion yn aros yn hwy na blwyddyn am apwyntiad claf allanol cyntaf, ond cyfran uchel o gleifion ar y rhestr aros am fwy na dwy flynedd;
- yr ail lefel uchaf o alw cudd neu 'golledig' posibl fel effaith yn deillio o gleifion nad oeddent yn mynd at eu meddyg teulu yn ystod y pandemig;
- lefelau cyfartalog o welyau orthopedig a chapasiti gweithlu meddygol;
- arosiadau cyfartalog am wasanaethau radioleg, ond rhai o'r arosiadau uchaf am ffisiotherapi; a
- nifer da o gleifion allanol sy'n manteisio ar apwyntiadau dilynol ar gais y claf, er mwyn lleihau galw diangen gan gleifion allanol, ond mae'r nifer sy'n manteisio ar lwybrau sylw yn ôl symptomau yn is na'r cyfartaledd.

36 Mae fy ngwaith modelu senario yn dangos, yn obeithiol, y gallai rhestr aros y Bwrdd Iechyd ddychwelyd i'r lefelau a oedd yn bodoli cyn y pandemig erbyn 2026, ond heb ymdrech ar y cyd, gallai gymryd llawer mwy o flynyddoedd i ddychwelyd i'r lefelau a oedd yn bodoli cyn y pandemig, os bydd yn gwneud hyn o gwbl.

37 Noda fy adroddiad lleol gyfres o awgrymiadau a chwestiynau fel y gall aelodau y Bwrdd lywio dadl a chael sicrwydd bod camau gwella ar lefel leol yn cael yr effaith a ddymunir.

## Trefniadau Llywodraethu Gweithredol—Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

38 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer ei Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaeth yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel. Wrth gynnal y gwaith, mae fy nhîm wedi profi llifoedd sicrwydd o'r llawr i'r bwrdd gan ddefnyddio'r gwasanaeth anableddau dysgu fel olrheiniwr.

39 Canfu fy ngwaith fod goruchwyliaeth dda o berfformiad ac ansawdd iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn y Bwrdd, gan ystyried materion sy'n berthnasol i'r Gyfarwyddiaeth a drafodir yn rheolaidd ar draws pob pwyllgor. Mae trefniadau adrodd ar berfformiad ar waith, ac maent yn cael eu monitro'n rheolaidd. Mae gwaith gan y Bwrdd Iechyd i wella ei berfformiad wedi arwain at wella perfformiad yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn deillio o fonitro gwell gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Mae hyn ar ôl i'r gwasanaeth waethygu am nifer sylweddol o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn parhau i fod o dan bwysau gyda materion staff, gan gynnwys recriwtio a salwch, sy'n effeithio ar y broses o ddarparu gwasanaethau yn amserol. Mae heriau sylweddol gydag ansawdd yr ystad hefyd lle mae gwasanaethau y Gyfarwyddiaeth yn cael eu darparu.

40 Mae trefniadau llywodraethu ar lefel y Gyfarwyddiaeth yn glir, ac mae trefniadau ar waith i roi sicrwydd ar y broses o reoli risgiau, perfformiad ac ansawdd. Mae trefniadau llywodraethu wedi eu gwella ar lefel y gwasanaeth anableddau dysgu hefyd, er eu bod yn parhau i fod dros dro ar adeg fy adolygiad. Ond mae lle i wella llifoedd gwybodaeth rhwng y Gyfarwyddiaeth a'r Bwrdd, i symleiddio agendâu y Gyfarwyddiaeth, i leihau dyblygiadau wrth adrodd, i wella'r ddealltwriaeth o risgiau sy'n cael eu dwysáu, ac i ddarparu mwy o eglurder ar gamau lliniaru sy'n cael eu rhoi ar waith. Mae COVID-19 wedi effeithio ar weithgarwch archwilio clinigol hefyd ac mae angen ei ailddechrau er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau. Er bod camau cadarnhaol wedi eu cymryd, mae angen cryfhau perthnasoedd ac ailddatblygu ymddiriedaeth yn y Gyfarwyddiaeth, a rhwng y Gyfarwyddiaeth a'r swyddog gweithredol, ac mae rhai aelodau o'r staff yn adrodd perthnasoedd gwael ag uwch-reolwyr (yn y Gyfarwyddiaeth ac ar lefel Weithredol), ac maent yn pryderu nad oes neb yn gwrando arnynt nac yn eu gwerthfawrogi.

41 Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth glir ar waith ar gyfer iechyd meddwl. Mae'r strategaeth yn nodi cyfraniad y Bwrdd Iechyd i'r system ehangach, gyda phartneriaid a phobl leol, er mwyn mynd i'r afael ag achosion afiechyd drwy hybu iechyd a llesiant, atal ac ymyrryd yn gynnar, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Mae cynlluniau ar waith i ddatblygu strategaethau ar gyfer anableddau dysgu a meysydd arbenigol eraill hefyd, er bod y staff yn canfod ei bod yn bosibl peidio â gweld anableddau dysgu weithiau.

42 Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi dogfennu rheolaethau ariannol er mwyn cefnogi prosesau rheoli ariannol, ond mae heriau ac ansicrwydd parhaus a sylweddol y gweithlu ynghylch cyllid Llywodraeth Cymru yn effeithio ar y gallu i reoli'r cyllid. Yn

hanesyddol, mae'r swyddi gwag yn y Gyfarwyddiaeth wedi bod yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at danwario, mae recriwtio yn parhau i fod yn heriol iawn ac mae angen dull mwy ffurfiol ac wedi ei dargedu o fynd i'r afael â meysydd recriwtio problemus ac o sicrhau cynaliadwyedd.

## Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG

43 Ym mis Medi 2023, cyhoeddais adroddiad briffio ar data sy'n nodi data allweddol y gweithlu ar gyfer GIG Cymru. Amlygodd fy mriffio dwf GIG Cymru parhaus, ac adlewyrchodd mewn rhai achosion, nad yw'r twf yn y lefelau staff, yn enwedig mewn nyrsio a rhai arbenigeddau meddygol wedi tyfu ar yr un raddfa â'r galw cynyddol.

44 Mae'n amlwg bod y pandemig wedi cael effaith ar staff ac mae'r gweithlu'n parhau i fod o dan bwysau sylweddol. Mae'r tueddiadau allweddol diweddar yn dangos lefelau uwch o ran trosiant staff, absenoldeb oherwydd salwch a swyddi gwag. Mae hyn wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar staff asiantaeth allanol ac yn nodedig gostau asiantaeth uwch hyd £325 miliwn yn 2022–23. Mae Cymru'n tyfu ei gweithlu ei hun, gyda chynnydd mewn nyrsys a meddygon sy'n hyfforddi.

45 Er gwaethaf hyn, mae dibyniaeth drom o hyd ar staff meddygol o'r tu allan i Gymru, sy'n dangos bod angen sicrhau bod comisiynu addysg yn gydnaws â'r galw, ond hefyd y gall cyrff iechyd recriwtio graddedigion digonol ar ôl iddynt gwblhau eu hyfforddiant. Mae fy adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rai tueddiadau cadarnhaol sy'n dangos bod y GIG yn dod yn gyflogwr mwy hyblyg a chyfartal.

## Trefniadau cynllunio'r gweithlu

46 Archwilia fy adolygiad a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i gefnogi gwaith cynllunio'r gweithlu. Mae'n canolbwyntio ar waith cynllunio gweithlu strategol a gweithredol, sut mae'n defnyddio gwybodaeth am y gweithlu a sut mae'n gweithio gyda'i randdeiliaid i ddatblygu atebion. Mae'r gwaith hefyd yn ystyried capasiti a gallu'r sefydliad i nodi a mynd i'r afael â heriau gweithlu tymor byr a hirdymor allweddol a'r modd y mae'n monitro a yw ei ddull yn gwneud gwahaniaeth.

47 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n glir ar ei ymdrechion ar ei heriau gweithlu sylweddol a'i fod yn cymryd camau pragmatig i helpu i leihau risgiau. Fodd bynnag, mae angen iddo ddatblygu cynllun gweithredu gweithlu clir a chyfunol ar frys a mesur yr effaith y mae'n ei chael i helpu i fynd i'r afael â'r heriau gweithlu sylweddol y mae'n eu hwynebu.

48 Mae gan y Bwrdd Iechyd niferoedd uchel o swyddi gwag, sy'n ymwneud yn bennaf â phroffesiynau nyrsio, bydwreigiaeth, meddygol a deintyddol. Mae hyn wedi achosi cynnydd sylweddol yn y defnydd o staff asiantaeth, a gostiodd £38 miliwn i'r Bwrdd Iechyd yn 2022–23, gan waethygu sefyllfa ariannol sydd eisoes o dan bwysau. Yn gymharol, mae gan y Bwrdd Iechyd drosiant staff (10%) a chyfraddau salwch (6%) sy'n is na'r cyfartaledd, ond maent yn dal i gyflwyno materion gweithlu sylweddol i'w rheoli.

49 Mae Strategaeth Weithlu y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio'n glir ar fynd i'r afael â risgiau gweithlu y sefydliad. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth gadarn o'r gofynion ar ei wasanaethau a'r tueddiadau presennol ac yn y dyfodol, ar sail y model gwasanaeth presennol. Mae dogfennau technegol y gweithlu yn nodi dadansoddiad gweithlu helaeth a gwaith modelu gwasanaethau, gan gynnwys mapio senarios a newid i'r gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn dod o hyd i atebion a rennir i heriau gweithlu. Fodd bynnag, nid oes cynllun gweithredu trosfwaol i gefnogi'r broses o oruchwylio a chyflawni Strategaeth y Gweithlu.

50 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau'r buddsoddiad yng nghapasiti a gallu cynllunio y gweithlu corfforaethol, ond mae pwysau gweithredol yn golygu nad oes gan arweinwyr y gwasanaeth ddigon o amser i ddatblygu atebion cynllunio gweithlu i helpu i fynd i'r afael â heriau gweithredol. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'r risgiau a allai atal ei uchelgeisiau gweithlu strategol rhag cael eu cyflawni. Mae'r rhain yn ymwneud â phrinder gweithlu, pwysau ariannol, a diffyg eglurder ynghylch adeilad ysbyty mawr newydd posibl a modelau clinigol cysylltiedig yn y dyfodol. Mae heriau gweithlu hefyd yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i fodloni gofynion Deddf Lefelau Staff Nyrsio. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn drwy amrywiaeth o weithgareddau recriwtio, cadw a datblygu. Fodd bynnag, nid yw comisiynu addysg yn cefnogi gweithlu cynaliadwy eto.

51 Mae'r Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant yn derbyn adroddiadau perfformiad y gweithlu amserol a chynhwysfawr. Er bod rhywfaint o gysondeb â Strategaeth y Gweithlu, heb gynllun gweithredu clir, mae'n anodd deall y cynnydd o ran cyflawni a pha effaith y mae'r weithred hon yn ei chael. Mae cyfle hefyd i gymharu'r perfformiad yn well â sefydliadau sydd â demograffeg a nodweddion poblogaeth tebyg.

## Asesiad strwythuredig

52 Cynhaliwyd fy ngwaith asesu strwythuredig 2023 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymdrin ag etifeddiaeth pandemig COVID-19 o ran ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol yn y system a gronnodd yn ystod y pandemig. Yn ogystal â hynny, roeddent hefyd yn ymdrin â set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio.

53 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gyda phwyslais penodol ar: dryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd; systemau sicrwydd corfforaethol; dull corfforaethol o gynllunio; a dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol. Talodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol. Ar adeg fy ngwaith asesu strwythuredig, roedd y Bwrdd Iechyd yn ddarostyngedig i 'ymyriad wedi ei dargedu'

gan Lywodraeth Cymru o ran ei drefniadau cynllunio a chyllid a 'monitro gwell' ar gyfer agweddau ar berfformiad ei wasanaeth.

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniad y Bwrdd

54 Ystyriodd fy ngwaith a yw'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Rhoddais sylw arbennig i'r hyn a ganlyn:

- tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd;
- trefniadau i gefnogi ymddygiad busnes y Bwrdd;
- cyfarfodydd, busnes a strwythur y Bwrdd a'r pwyllgor, a llifoedd sicrwydd;
- ymrwymiad y Bwrdd i wrando ar staff, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill;
- cydlynrwydd, profiadau a sgiliau y Bwrdd, a'i ymrwymiad i welliant.

55 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithredu'n effeithiol, gan ganolbwyntio ar dryloywder cyhoeddus, llywodraethu da, a gwelliant parhaus. Mae cyfleoedd i wella ymhellach y trefniadau ar gyfer teithiau cerdded diogelwch cleifion, ac er bod y Bwrdd yn gydlynol, bydd angen rheoli cyfnod o newid sylweddol yn dda i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal.

56 Mae gan y Bwrdd ymrwymiad cryf o hyd i dryloywder cyhoeddus. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi'n dda, a gall aelodau o'r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd yn y cnawd neu'n rhithwir. Cedwir sesiynau preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau ar gyfer y materion mwyaf sensitif, gan gyhoeddi agendâu preifat y Bwrdd a chrynodeb lefel uchel o'r trafodaethau ar-lein. Mae cyfle i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu'r trefniad hwn ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hefyd. Er nad yw cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu hyrwyddo yn yr un modd â chyfarfodydd y Bwrdd, gall aelodau o'r cyhoedd arsylwi cyfarfodydd pwyllgor ar gais.

57 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithio'n effeithiol, gyda chylch gorchwyl a rhaglenni gwaith cyfredol sy'n cyd-fynd yn dda ag amcanion strategol, amcanion cynllunio a risgiau y Bwrdd Iechyd. Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cadeirio'n dda, yn dilyn prosesau y cytunwyd arnynt ac yn rhedeg yn brydlon, gyda chefnogaeth dda gan y tîm llywodraethu corfforaethol. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn parhau i dderbyn papurau amserol o ansawdd da, ac offer rhyngweithiol i gefnogi gwaith craffu, sicrwydd a gwneud penderfyniadau effeithiol. Mae trefniadau cadarn yn parhau i gefnogi'r gwaith o gynnal busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau'n effeithiol. Fodd bynnag, er bod y Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol ar hyn o bryd, bydd angen iddo reoli'r newid sydd ar y gweill yn aelodaeth y Bwrdd. Mae'r dull cadarn o ddatblygu a gwella'r Bwrdd yn darparu sylfeini da i reoli'r newid hwn, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud popeth y mae'n gallu i sicrhau trawsnewidiad llyfn.

58 Mae'r Bwrdd wedi cynnal ei ymrwymiad i wrando ar gleifion a'r staff, drwy straeon cleifion a'r staff, drwy gynnal proses Codi Llais heb Ofn a phlatfform Gweithio'n Hyderus, a thrwy annog rhwydweithiau staff a hybu cynlluniau cydnabod staff. Mae aelodau'r Bwrdd wedi cynnal teithiau cerdded diogelwch cleifion rheolaidd, ond daethom o hyd i gyfleoedd i egluro'r broses o gynnal teithiau cerdded gydag Aelodau Annibynnol newydd.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

59 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn ar gyfer rheoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol;
- goruchwylio'r perfformiad sefydliadol;
- goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau; ac
- olrhain argymhellion.

60 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu systemau sicrwydd corfforaethol sy'n gysylltiedig ag olrhain risgiau ac argymhellion, a bod gan y Bwrdd oruchwyliaeth briodol. Mae'r dull o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn gwella. Er bod goruchwyliaeth gorfforaethol y perfformiad sefydliadol yn gryf, mae lle i gryfhau sicrwydd ar effeithiolrwydd systemau rheoli perfformiad.

61 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â dull aeddfed o oruchwylio ei Fframwaith Sicrwydd Bwrdd ac mae wedi cryfhau yr oruchwyliaeth a'r sicrwydd ymhellach ar ei drefniadau rheoli risgiau drwy adnewyddu ei Strategaeth Rheoli Risgiau a chyflwyno adroddiad sicrwydd risgiau chwech misol. Cynhaliwyd goruchwyliaeth gref ar lefel gorfforaethol a gwaith craffu ar berfformiad sefydliadol, ac mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo fframwaith rheoli perfformiad Gwella Gyda'n Gilydd, fodd bynnag, mae lle i gryfhau'r sicrwydd ar effeithiolrwydd systemau rheoli perfformiad.

62 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei ddull o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac mae wedi diwygio ei Fframwaith Strategol Gwella Ansawdd ers y llynedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd newydd, ac mae trefniadau cadarn ar gyfer olrhain argymhellion archwilio ac adolygu yn parhau.

## Dull cynllunio corfforaethol

63 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o gynllunio. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- llunio a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig; a
- goruchwylio'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

64 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio ar ei weledigaeth hirdymor, a bod goruchwyliaeth briodol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Blynyddol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau'r broses o oruchwylio cynlluniau corfforaethol eraill, o wella'r amcanion cynllunio ymhellach ac o adolygu'r capasiti i gefnogi gweithgareddau cynllunio.

65 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ei weledigaeth hirdymor, a chefnogir y broses o ddatblygu cynlluniau, megis y Cynllun Blynyddol a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol, gan oruchwyliaeth corfforaethol priodol a gwaith craffu yn y Bwrdd. Fodd bynnag, o ystyried graddfa heriau y Bwrdd Iechyd, ei ofynion

cynllunio yn y dyfodol, a'r angen i gefnogi gwaith cynllunio blynyddol arferol a gwaith cynllunio y gwasanaeth, rydym yn parhau i bryderu am y capasiti i gefnogi'r gweithgareddau hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, drwy gynllun gweithredu a ddatblygwyd mewn ymateb i adolygiad annibynnol o drefniadau cynllunio y Bwrdd Iechyd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

66 Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ei Gynllun Blynyddol yn parhau i fod yn gadarn, a cheir cefnogaeth bellach gan set o 23 amcan cynllunio symlach, yn hytrach na 75. Gosodir yr amcanion cynllunio o'u cymharu â phedwar parth ac wyth nod cynllunio strategol; fodd bynnag, nid ydynt yn cyd-fynd yn benodol â chwe amcan strategol tymor hwy trosfwaol y Bwrdd Iechyd, sy'n gwneud trefniadau monitro yn llai eglur. Hefyd, mae cyfleoedd yn parhau i fynegi canlyniadau disgwyliedig ar gyfer amcanion cynllunio ac i gryfhau'r broses o oruchwylio cynlluniau corfforaethol eraill heblaw'r Cynllun Blynyddol.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

67 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan y Bwrdd Iechyd ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cyflawni ei amcanion ariannol;
- goruchwylio gwaith cynllunio ariannol;
- goruchwylio rheolaeth ariannol; a
- goruchwylio perfformiad ariannol.

68 Canfu fy ngwaith, er gwaethaf proses glir ar gyfer cynllunio ariannol a threfniadau rhesymol ar gyfer rheoli a monitro'r sefyllfa ariannol, fod sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn hynod heriol ar gyfer 2023–24.

69 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol refeniw ar gyfer 2022–23 a bydd yn parhau i beidio â'u cyflawni yn 2023–24. Gan weithio i ddiffyg ariannol arfaethedig o £112.9 miliwn ar gyfer 2023–24, roedd y Bwrdd Iechyd yn adrodd amrywiad anffafriol o £15.6 miliwn o'i gymharu â'i derfyn adnoddau refeniw ar gyfer Mis 6. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn arian ychwanegol sy'n lleihau'r cyfanswm rheoli diffyg y cytunwyd arno i £48 miliwn. Fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei sefyllfa gychwynnol a ragfynegwyd, y cydnabu yn ffurfiol ym mis Hydref 2023 na fyddai'n debygol o'i chyflawni.

70 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses glir ar gyfer cynllunio ariannol, ac mae'r Bwrdd yn cyfrannu'n dda, er bod datblygu a chyflawni ei gynllun arbedion yn her. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gofyn am arbedion o £19.5 miliwn, a nodwyd bwlch o £6.6 miliwn yn yr arbedion a adroddwyd ym Mis 6. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar gyfer rheoli ariannol a rheolaethau, ond mae pwysau parhaus yn arwain at orwario. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da o hyd ar gyfer monitro a chraffu ar ei sefyllfa ariannol. Mae llawer o'r craffu hwnnw yn canolbwyntio ar y Cyfarwyddwr Cyllid. Fodd bynnag, dylai'r dull craffu gydnabod y cyfrifoldeb ar y cyd sydd gan y tîm gweithredol ehangach mewn cysylltiad â'r sefyllfa ariannol.

## Adolygiad dilynol o’r gofal sylfaenol

71 Archwiliodd fy adolygiad i ba raddau y mae’r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu fy argymhellion blaenorol yn 2018 sy’n ymwneud â gofal sylfaenol. Asesais hefyd i ba raddau y mae’r Bwrdd a/neu ei bwyllgorau yn ystyried yn rheolaidd faterion sy’n ymwneud â gofal sylfaenol, ac a oes gan dîm gwasanaethau gofal sylfaenol canolog y Bwrdd Iechyd y capasiti a’r gallu priodol.

72 Canfu fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da wrth fynd i’r afael â’m hargymhellion blaenorol. Mae’n gwella rheolaeth gwasanaethau gofal sylfaenol, yn darparu capasiti ychwanegol, ac yn cryfhau’r broses o oruchwylio heriau gofal sylfaenol yn y Bwrdd. Fodd bynnag, mae’r capasiti yn parhau i fod dan bwysau mewn rhai meysydd, ac mae angen rhagor o waith i ddatblygu gwaelodlin ariannol. Mae angen gwella’r modd yr ystyrir gofal sylfaenol, gan gynnwys goruchwylio perfformiad, ym musnes arferol y pwyllgor.

73 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi mynd i’r afael ag argymhellion archwilio blaenorol sy’n ymwneud â chlystyrau a gwerthuso ffyrdd newydd o weithio ac mae’n gwneud cynnydd â gwaith cynllunio’r gweithlu ac â gwaith ymgysylltu â chynllunio. Fodd bynnag, mae wedi cael trafferth pennu gwaelodlin ariannol mewn cysylltiad â’i wasanaethau gofal sylfaenol y gellir monitro cynnydd pellach ohonynt.

74 Mae gofal sylfaenol yn amlwg yng ngweledigaeth strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd, ac mae goruchwyliaeth dda a chreffir yn dda ar rai o’r heriau y mae gofal sylfaenol yn eu hwynebu yn y Bwrdd. Fodd bynnag, nid yw ystyriaeth mewn pwyllgorau wedi ei gwreiddio’n systematig yn y busnes arferol, ac ni oruchwylir y perfformiad yn ddigonol.

75 Mae adnoddau’n cael eu hadolygu’n gyson, gyda pheth cynnydd cadarnhaol yng nghapasiti’r gofal sylfaenol canolog a chynnydd da gyda chynllunio olyniaeth. Fodd bynnag, mae rhywfaint o gapasiti gofal sylfaenol canolog y Bwrdd Iechyd o dan bwysau oherwydd y nifer cynyddol o arferion a reolir a’r amser cyfyngedig sydd ar gael i Arweinwyr Clwstwr ymgymryd â’u swyddogaeth yn llawn.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2023.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2023 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2023 |
| Ein bwriad yw cyhoeddi Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol Cronfeydd Elusennol a'r Farn ar Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol ym mis Ionawr 2024 | Cynlluniwyd barn archwilio ar gyfer 29 Ionawr 2024 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros | Mawrth 2023 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Mynd i'r afael ag ôl-groniad Rhestr Aros Gwasanaethau Orthopedig Darlun cymharol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Mawrth 2023 |
| Trefniadau Llywodraethu Gweithredol—Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Ebrill 2023 |

| **Adroddiad** | **Dyddiad** |
| --- | --- |
| Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu | Gorffennaf 2023 |
| Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG | Medi 2023 |
| Asesiad Strwythuredig 2023 | Tachwedd 2023 |
| Adolygiad Dilynol o'r Gofal Sylfaenol | Rhagfyr 2023 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2023 | Ebrill 2023 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2023 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan. Mae'r astudiaethau hyn yn arfer yn cael eu cyllido drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus er mwyn gefnogi ei waith o graffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Amcangyfrif o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Gofal Heb di Drefnu: Flow out of Hospital – West Wales Region | Chwefror 2024 |
| Cynllunio ar gyfer Rhyddhau Cleifion: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Cynnydd | Chwefror 2024 |
| Adolygiad o'r Effeithlonrwydd Ariannol | Mawrth 2024 |
| Adolygu Trefniadau Llywodraethu Gweithredol | Ebrill 2024 |
| Gofal Heb di Drefnu: Trefniadau ar gyfer Rheoli Mynediad | Mehefin 2024 |
| Adolygiad o'r Broses o Adfer Gwasanaethau Gofal a Gynlluniwyd | Gorffennaf 2024 |
| Adolygiad o'r Trefniadau ar gyfer Ystadau a Blaenoriaethu Cyfalaf | Gorffennaf 2024 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2023 yn nodi ffi archwilio arfaethedig o £392,540 (heb gynnwys TAW). Ar y sail bod rhywfaint o waith yn parhau i fynd rhagddo, mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn cyd-fynd â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Archwilio risgiau cyfrifon

**Arddangosyn 4: archwilio risgiau cyfrifon**

Noda fy Nghynllun Archwilio 2023 risgiau o gamddatganiad a/neu afreoleidd-dra perthnasol ar gyfer archwiliad cyfrifon 2022–23 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32–33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i fusnes arferol. | Gwnaeth fy nhîm archwilio:<br>• brofi cofnodion mewn cyfnodolion;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu, yn benodol taliadau gofal sylfaenol; a<br>• pheidio â nodi unrhyw drafodiadau y tu allan i fusnes arferol.<br>Ni ddeilliodd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a gynhaliwyd. |
| O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, symudodd byrddau iechyd i derfyn adnoddau treigl tair blynedd ar gyfer refeniw a chyfalaf. Ar gyfer 2022–23 a'r tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2023, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld y bydd yn mynd tu hwnt i'w derfyn adnoddau | Byddaf yn monitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022–23 a'r sefyllfa gronnol ar gyfer y tair blynedd sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2023. Bydd fy adolygiad hwn yn ystyried hefyd effaith unrhyw gamddatganiadau perthnasol nas cywirwyd yn ystod y tair blynedd. Os bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyrraedd y | Gosodais adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol sy'n esbonio'r methiant i fodloni'r terfyn adnoddau refeniw tair blynedd ac o dan ba amgylchiadau y digwyddodd hyn. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| refeniw o £59 miliwn. Gallai'r canlyniad hwn effeithio ar fy marn ar reoleidd-dra, fel y mae'r Bwrdd Iechyd wedi ei brofi yn ystod rhai o'i flynyddoedd ariannol diwethaf. | terfynau adnoddau tair blynedd o ran refeniw a/neu gyfalaf, byddwn yn disgwyl cymhwyso fy marn reoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol 2022–23. Fe fyddwn i'n disgwyl cyflwyno adroddiad sylweddol ynghylch y datganiadau er mwyn esbonio sail y cymhwyster ac o dan ba amgylchiadau yr oeddent wedi codi. | |
| Fel y nodir uchod, ar gyfer 2022–23, mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl mynd tu hwnt i'w derfyn adnoddau refeniw o £59 miliwn. Byddai'r Bwrdd Iechyd wedi adrodd y rhagolwg hwn i Lywodraeth Cymru a disgwylid iddo gyflawni'r sefyllfa alldro hon. | Byddaf yn canolbwyntio fy mhrofion ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys dyfarniadau fel darpariaethau. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar groniadau diwedd y flwyddyn gan bwysleisio ar sicrhau bod trafodiadau wedi eu hadrodd yn ystod y cyfnod cyfrifyddu cywir. | Adolygodd fy nhîm archwilio drafodiadau diwedd y flwyddyn, yn benodol croniadau a thorbwyntiau. Ni ddeilliodd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a gynhaliwyd. |
| Cynhaliwyd prisiad pum-mlynyddol ystad y GIG ar 1 Ebrill 2022. Mae risg nad yw asedau'n cael eu prisio ar seiliau priodol ac nad yw symudiadau wrth ddwyn gwerthoedd asedau ymlaen yn cael eu cyfrif a'u datgelu yn briodol. O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, mae perygl | Byddaf yn:<br>• ystyried pa mor briodol yw gwaith y Swyddfa Brisio fel arbenigwr rheoli;<br>• profi pa mor briodol yw seiliau prisio asedau;<br>• adolygu sampl o symudiadau wrth ddwyn gwerthoedd ymlaen er mwyn sicrhau bod y symudiadau hyn | Gwnaeth fy nhîm archwilio:<br>• ystyried pa mor briodol yw gwaith y Swyddfa Brisio fel arbenigwr rheoli;<br>• profi pa mor briodol yw seiliau prisio yr asedau;<br>• adolygu sampl o symudiadau wrth gario gwerthoedd; ac |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| pellach bod gwerthoedd dwyn asedau ymlaen wedi newid yn ystod 2022–23 a bod prisiadau 1 Ebrill 2022 yn cael eu camddatgan yn berthnasol ar ddyddiad y fantolen, sef 31 Mawrth 2023. | wedi eu cyfrif a'u datgelu yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifon Llywodraeth Cymru; ac<br>• ystyried a yw gwerth yr asedau a ddygir ymlaen ar 1 Ebrill 2022 yn parhau i fod yn briodol yn berthnasol neu a oes angen addasiadau ychwanegol yn y flwyddyn oherwydd effaith yr amodau economaidd presennol. | • ystyried a yw gwerth yr asedau a ddygir ymlaen ar 1 Ebrill 2022 yn parhau i fod yn briodol yn berthnasol neu a oes angen addasiadau ychwanegol yn y flwyddyn oherwydd effaith yr amodau economaidd presennol.<br>Ni ddeilliodd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a gynhaliwyd. |
| Rwyf yn archwilio rhai o'r datgeliadau yn yr adroddiad ar daliad cydnabyddiaeth i lefel perthnasedd llawer is, fel y nodir ar dudalen 8. Felly, mae'r camddatganiadau yn fwy tueddol o gael eu camddatgan yn berthnasol. Felly, rwyf yn barnu bod datgeliadau 2022–23 mewn perygl o gamddatganiad. | Byddaf yn archwilio pob cofnod yn yr adroddiad ar daliad cydnabyddiaeth i wirio eu bod yn berthnasol gywir, a bod taliad cydnabyddiaeth ar y lefelau cymeradwy. | Adolygodd fy nhîm archwilio'r adroddiad ar daliad cydnabyddiaeth a gwirio eu cywirdeb.<br>Ni ddeilliodd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a gynhaliwyd. |
| Rwyf hefyd yn archwilio trafodiadau a balansau partïon cysylltiedig a ddatgelir i lefel o berthnasedd sy'n llawer is. | Byddaf yn gwirio bod yr holl ddatganiadau a lofnodwyd sy'n angenrheidiol wedi eu derbyn, eu gwerthuso, a'u datgelu'n briodol ac yn gywir. Mae fy archwiliadau hefyd yn cynnwys dulliau eraill o | Adolygodd fy nhîm archwilio ddatganiadau o fuddiant a chofnodion Tŷ'r Cwmnïau er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn natgeliadau cysylltiedig y partïon yn gywir. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| | brofi, megis fy adolygiad o gofnodion Tŷ'r Cwmnïau gan ddefnyddio dadansoddeg data. | Ni ddeilliodd unrhyw faterion perthnasol o'r gwaith a gynhaliwyd. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan https://www.audit.wales/cy

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.